## Swydd Ddisgrifiad:

## Swyddog Prosiect : 'Datblygu Cymunedau Dwyieithog'

**Tymor Penodedig** at ddiwedd Rhagfyr 2019.

Dwy swydd rhan amser (20 awr) ond gellid ystyried cynyddu neu ostwng nifer yr oriau yn ddibynnol ar y ceisiadau a geir i law.

Dibenion y prosiect yw:

i) datblygu cymunedau gan ddilyn egwyddorion a) Strategaeth Datblygu Lleol b) Gweithredu'n Lleol (Llywodraeth Cymru)

ii) datblygu rhaglen o gymorth a chefnogaeth i grwpiau gwirfoddol cymunedol fedru cynnal digwyddiadau Cymraeg a dwyieithog yn addas i drigolion y cymunedau dan sylw

**Prif Ddyletswyddau:**

- Meithrin partneriaethau a datblygu cysylltiadau gyda gwirfoddolwyr lleol
- Paratoi deunydd a negeseuon yn barod i farchnata'r rhaglen mentora ar gyfer grwpiau gwirfoddol
- Rhoi cyflwyniadau ac ysgrifennu datganiadau i'r wasg am y prosiect
- Trefnu digwyddiadau – ac wrth i'r prosiect ddatblygu, cefnogi gwirfoddolwyr wrth iddynt gynnal gweithgareddau cymunedol
- Hyrwyddo gweithgareddau a mentora gwirfoddolwyr i'w hyrwyddo wrth i'r prosiect ddatblygu
- Gwerthuso'r digwyddiadau a'r prosiect

**Sgiliau Angenrheidiol:**

- y gallu i arwain a rheoli;
- y gallu i weithio'n drefnus ac effeithlon heb arweiniad uniongyrchol gan eraill;
- sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da;
- y gallu i weithio'n effeithiol ac ysbrydoli eraill;
- y gallu i fonitro prosiectau yn effeithiol;
- profiad o wneud cyflwyniadau;
- ymwybyddiaeth o natur ieithyddol a chymdeithasol yr ardal;

- yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- sgiliau TG da a'r parodrwydd i ddysgu am raglenni newydd;
- trwydded yrru gyfredol a glân
- y gallu i weithio mewn tîm

**Sgiliau Dymunol**

- profiad o reoli a monitro prosiectau yn effeithiol;
- profiad o weithio ar lefel gymunedol neu wirfoddol;
- rhywfaint o wybodaeth neu ddiddordeb mewn datblygu cymunedol a / neu cynllunio ieithyddol
- profiad o ymgeisio am grantiau bach a chanolig
- profiad a dealltwriaeth o ganllawiau cynnal gweithgareddau cymdeithasol

**Amodau a Thelerau**

Bydd y Swyddog Prosiect yn atebol i'r Prif Swyddog a Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Sir Ddinbych.

| | |
|---|---|
| **Cyflog**: | £21,910 (pro-rata) - Pwynt 23 o raddfa gyflog yr awdurdod lleol + 7% cyfraniad tuag at gynllun pensiwn. |
| **Costau Teithio:** | Bydd costau teithio yn cael eu talu ar gyfradd o 45c y filltir. |
| **Oriau Gwaith**: | 20 awr yr wythnos, gyda oriau arferol swyddfa yn 9am – 5pm, ond oherwydd natur y swydd hon, bydd gofyn i'r swyddog weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ar adegau yn cynnal cyfarfodydd neu weithgareddau. Gyda chaniatâd y Rheolwr Llinell bydd y Swyddog yn cael cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith ar ôl gweithio oriau ychwanegol. |
| **Gwyliau**: | 28 diwrnod (pro-rata) y flwyddyn a gwyliau statudol. |
| **Hyd y Cytundeb:** | Hyd at 31 o Ragfyr 2019 |
| **Rhybudd gadael swydd**: | 1 mis. |
| **Lleoliad:** | Swyddfa Menter Iaith Sir Ddinbych yn Ninbych. |